Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 1-7

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 7

Astudiaeth 2 Geni'r Gwaredwr – Gorchymyn yr Ymerawdwr

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Diarhebion 21: 1 Daniel 4: 34 a 35 Philipiaid 2: 5-7

Am lawer o flynyddoedd, roedd yr Ymerodraeth Rufeinig yn cael ei rheoli gan ymerawdwyr pwerus o'r enw 'Cesariaid'. Roedden nhw'n byw yn Rhufain, gannoedd o filltiroedd o'r wlad fach lle'r oedd yr Iddewon yn byw.

C **Ysgrifennwch enw'r Cesar a oedd mewn grym pan anwyd yr Arglwydd Iesu.** _____ **1**

Er mwyn casglu trethi oddi wrth ei ddeiliaid, roedd yn mynnu bod pawb yn cael eu cofrestru. Felly gwnaeth orchymyn.

C **Llanwch y llefydd gwag yn y gorchymyn dychmygol hwn.**



4

1

Er mwyn dilyn gorchymyn yr Ymerawdwr, roedd pobl yn gorfod mynd yn ôl i'r man lle cawsant eu geni. Mae'r Darlleniad yn sôn am DDAU o bobl a oedd yn gorfod mynd ar daith fel hyn.

C **Beth oedd eu henwau?**

1) _____

2) _____



C **Ar y map, nodwch:**

1. Y lle (2) a'r ardal (1) o ble y gwnaethon nhw deithio.

2. Y lle (4) a'r ardal (3) yr aethon nhw iddynt.

2

C **O ba un o frenhinoedd enwog yr Iddewon roedd Joseff yn gallu olrhain ei achau?** _____ **1**

Roedd Duw wedi gwneud addewidion rhyfeddol i'r brenin hwnnw.

C **Ysgrifennwch beth a ddywedodd Duw wrth y brenin hwn yn 2 Samuel 7: 16.** **2**

Bydd yr holl addewidion hyn yn dod yn wir yn y pen draw yn yr Arglwydd Iesu.

C **Meddyliwch am un rheswm pam y byddai'r daith (tua 70 milltir) yn anodd i Mair.** **1**

Mae'n rhaid i ni gofio bod rhywun mwy pwerus na Chesar y tu ôl i'r digwyddiadau hyn. Roedd Duw ei Hunan yn rheoli popeth, wrth i ddyfodiad Mab Duw i'r byd agosáu. Gannoedd o flynyddoedd cyn hynny, roedd Duw wedi cyhoeddi, trwy Ei broffwyd Micha, y byddai'r Gwaredwr yn cael ei eni ym Methlehem.



C **Chwiliwch am Micha 5: 2 ac ysgrifennu'r adnod.** **3**

Ymhell i ffwrdd, yn Rhufain, doedd Cesar Awgwstus ddim yn deall bod Duw yn defnyddio'i orchymyn i sicrhau bod yr Arglwydd Iesu'n cael ei eni ym Methlehem, yn union fel roedd Duw wedi dweud. Yn ogystal â chael ei eni yn y lle iawn, cafodd y Gwaredwr ei eni ar yr amser iawn. Roedd Duw wedi trefnu digwyddiadau'r byd er mwyn sicrhau bod y Gwaredwr yn cael ei eni ar yr amser iawn!

C **Ysgrifennwch beth sydd gan Galatiaid 4: 4 i'w ddweud am hyn.** **2**

Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn nodi'n syml ac yn glir beth a ddigwyddodd ym Methlehem.

C **Darllenwch adnodau 6 a 7 eto, ac yna ysgrifennwch yr Adnod Allweddol gan DANLINELLU y geiriau sy'n dangos pam y cafodd ei roi yn y preseb.** **3**

A dyna sut y digwyddodd y peth pwysig hwn. Daeth Mab Duw i lawr o'r Nefoedd, daeth yn ddyn fel ni a marw dros ein pechodau ni. Heddiw, mae'n abl ac yn barod i achub pawb sy'n ymddiried ynddo. Mae'n bwysig ein bod ni'n gofalu bod gennym ni 'le' Iddo.